# Taflen Wybodaeth Dosbarth Eithin, Ysgol Pentrecelyn

Mae wedi bod yn hyfryd croesawu plant yn ôl i'r ysgol a gweld llawer o wynebau'n gwenu yn Nosbarth Eithin. Gobeithio y bydd y llythyr hwn yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am y tymor, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau, gofynnwch wyneb yn wyneb neu drwy ebost.

**Hwb/J2e** Yng Nghyfnod Allweddol 2 rydym yn defnyddio app J2e sydd yng nghyfrif Hwb eich plentyn ar gyfer nifer o dasgau iaith a thema. Bydd unrhyw waith cartref yn ychwanegol i ddarllen bob penwythnos yn ogystal ag ymarfer tablau a sillafu ar J2blast yn cael ei osod ar ***J2homework.*** Os oes gennych unrhyw broblemau wrth ei ddefnyddio, rhowch wybod i ni a byddwn yn hapus i helpu.

**Llyfrau Darllen-** Bydd bag darllen yn cael ei yrru adref ar brynhawn Dydd Mercher fel gwaith cartref. Cofiwch atgoffa'r plant i'w ddod a fo'n ôl ar fore Dydd Llun os gwelwch yn dda, er mwyn newid y llyfrau. Mae gan bob disgybl lyfr darllen Cymraeg a Saesneg yn yr ysgol hefyd ac maent yn eu darllen yn rheolaidd gydag aelod o staff.



***DYSGU ADREF - Rhifo Rhagorol/Big Maths, SAFMEDS a Maths Factor***

**Byrbryd**– Yn ystod y bore cyn amser chwarae bydd plant Dosbarth Eithin yn cael byrbryd. Bydd amrywiaeth o ffrwythau gan siop leol yn cael ei gynnig i'r plant ynghŷd â diod o laeth. Gofynnwn yn garedig i chi am gyfraniad o £1.50 yr wythnos, gan ei dalu ar 'Parent Pay'.



**Boteli dŵr–** Bydd pob plentyn yn derbyn potel dŵr Ysgol Pentrecelyn i'w gadw yn y dosbarth ac byddent yn llenwi a gwagu y poteli yn ddyddiol. Bydd modd iddynt yfed dŵr yn annibynnol yn ystod y dydd. Bydd unrhyw fotel o adref yn cael ei gadw yn y bag ar gyfer amseroedd rhydd.



**Thema**– Ein thema y tymor yma fydd

***Enwogion o Fri.*** Byddwn yn dysgu mwy am enwogion lleol, Cymreig ac o weddill y byd. Mi fydd y plant yn cael rhan blaenllaw wrth gynllunio y thema ac byddwn yn cysylltu yr enwogion gyda 6 maes dysgu y cwricwlwm newydd.

**Addysg Gorfforol—** Bydd sesiwn yn cael ei gynnal prynhawn Dydd Mercher. Bydd angen i bob plentyn ddod i'r ysgol mewn gwisg addas (tracwisg neu siorts, crys-T ac esgidiau ymarfer).



**Gwener Gwych–** Rydym fel Ysgol yn credu bod cynnig profiadau amrywiol i blant yn bwysig iawn. Felly pob prynhawn dydd Gwener, byddwn yn cynnig llu o weithgareddau cyffrous ar eu cyfer. Gofynnwn yn garedig i'r disgyblion sicrhau bod esgidiau addas fel welingtons yn cael ei gadael yma yn yr Ysgol, fel ein bod yn medru gwneud y gorau o'r Ysgol goedwig naturiol a'r gymuned.

**Pencampwyr Pwerau Dysgu**—Byddwn yn dathlu ein Pencampwyr yn ein gwasanaeth ar bnawn Mawrth.

Rydym yn defnyddio Twitter (X) a Facebook i rannu lluniau gyda rhieni– **Ysgol Pentrecelyn.**

Mae gwefan yr ysgol hefyd yn cynnwys llawer o wybodaeth Ysgol, a dyma lle gallwch chi lawrlwytho app yr ysgol er mwyn cael gwybod am newyddion ysgol gyfan.